Uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru

Ers 2013 rydym wedi cynnig rhaglen ddatblygu cynulleidfaoedd sylweddol sydd yn dod â rhagor o ffilmiau, i ragor o bobl, mewn rhagor o leoedd ar draws Cymru. Yma rydym yn edrych ar rai o'r uchafbwyntiau hyd yn hyn ac yn rhannu'r hyn rydym wedi ei gyflawni ar draws ein rhwydwaith yng Nghymru a thu hwnt.

Rhwydwaith

176 o aelodau

143 bwrseriaeth

306 rhwydwaith arddangos ehangach

1061 buddiolwyr hyfforddiant

490 Sinema i Bawb a llogi offer FHW

2210 buddiolwyr rhwydweithio

Ymchwil Cynulleidfa

- Ymchwil Brand Gwnaethpwyd yng Nghymru
- Archwiliad o Addysg Ffilm yng Nghymru
- Darpariaeth Sinema yng Nghymru i deuluoedd gyda phlant anabl
- Strategaeth/Adolygiad Marchnata
- Sinema Gwledig
- Deall ein Cynulleidfaoedd
- Datgloi Treftadaeth
- Adolygiad Ffilmiau Cymreig Rhwydweithiau Gwyliau Ieuenctid
- Technegau arolwg cynulleidfa peilot

Cyfnewid Sgiliau

Mae myfyrwyr Prifysgol De Cymru yn cael eu gosod mewn lleoliadau Cymreig i gyfnewid sgiliau, cefnogi marchnata a hyrwyddo rhaglennu fel llwybr gyrfa. Fe wnaethom ddatblygu modiwl profiad gwaith achrededig gyda'r brifysgol a lansiwyd yn 2019 fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Ffilm. Mae'r cwrs yn ein cynorthwyo i ateb ein nod o greu sgiliau rhanbarthol newydd, a llenwi bwlch mewn talent arddangos Cymreig.

Hyfforddiant

Rydym wedi cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi i aelodau, o greu DCP technegol, i hyfforddiant amrywiaeth Agor ein Drysau oedd yn edrych ar ymwybyddiaeth dementia a thrawsryw, cefnogi cynulleidfoaedd anabl a phobl o liw. Fe wnaethom hefyd ddarparu digwyddiad Sinema Cymunedol Gwledig yn flynyddol gan gynnig hyfforddiant ymarferol, syniadau a chyfleoedd rhwydweithio i sinemau cymunedol.

Spotlight: Off Y Grid

Ymunodd saith lleoliad (CellB, Galeri, Neuadd Dwyfor, Neuadd Ogwen, Pontio, Dragon Theatre a TAPE) gyda'i gilydd fel rhan o brosiect strategol FHW i hyrwyddo teitlau ffilmiau amrywiol i gynulleidfaoedd gwledig a phellennig ar draws gogledd Cymru. Gan fabwysiadu dull newydd arloesol tuag at ddatblygu cynulleidfa, maen nhw'n creu cynnwrf rhwng y saith sinema ac yn cynyddu ymwybyddiaeh am ddigwyddiadau cyffrous cost isel sydd ar gael i bob oedran ar draws y rhanbarth.

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru | The National Lottery | BFI FAN | CHAPTER | Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cynulleidfa

Sinema Cynhwysol

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn falch o arwain ar amrywiaeth a chynhwysiant ledled y DU ar ran FAN BFI. Ein nod ydy dylunio a chefnogi prosiectau sydd yn delio gyda chynrychiolaeth ar sgrin, yn y gynulleidfa a thu ôl i'r cameraDyma rai ohonyn nhw:

www.inclusivecinema.org

Gan weithio gyda'n Swyddog Mynediad FAN BFI, fe wnaethom lansio platform ar-lein unigryw ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant yn y sinema. Mae'r safle yn cynnwys adnoddau, astudiaethau achos a data.

TAPE

Fe wnaethom gefnogi TAPE i ddarparu Gŵyl Ffilmiau Cynhwysol dros dridiau yng Ngholwyn, ochr yn ochr â phenwythnos Capel Arswyd a dangosiadau newydd eu lansio yng Ngharchar Rhuthun. Drwy'r prosiect maen nhw wedi gallu archwilio dulliau sgrinio newydd gan ganolbwyntio ar niwrowahaniaeth. Maen nhw'n hyfforddi ac yn gweithio gyda gwirfoddolwyr newydd gan greu partneriaethau newydd a newidiadau parhaol i ddarpariaeth TAPE o ddangosiadau a fydd yn darparu profiadau sinema mwy cynhwysol i gynulleidfaoedd y dyfodol.

Rhwydwaith Rhaglenwyr Ifanc 16-30

Datblygu'r genhedlaeth nesaf o fynychwyr ffilmiau a churadwyr, cynnig cyfleoedd rhaglennu a datblygu sgiliau, yn enwedig i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig lle mae yna lai o gyfleoeddd (Rhyl Little Theatre, CellB, Neuadd Ogwen, Galeri a Chapter (Trelai/Sblot) i gymryd rhan yng Nghymru. Datblygodd Galeri gynllun rhaglenwyr ifanc newydd mewn partneriaeth gyda Chlwb Ieuenctid LGBT+ yr elusen lleol GISDA. Dan arweiniad yr adolygydd ffilmiau Dion Wyn Hughes, trefnodd y grŵp Ŵyl Ffilmiau LGBT+ a gynhaliwyd yn sinema Galeri bob wythnos dros gyfnod o fis.

465,648 Cyrhaeddiad Cynulleidfa

226 Prosiectau Cynulleidfaoedd Newydd



Spotlight: Gentle/Radical

Drwy brosiect Gobaith Cenhedlaeth Gentle/Radical llwyddodd swyddogion maes BAMER sydd yn gweithio yn y gymuned i gynhyrchu cynulleidfaoedd ar gyfer 10 dangosiad cynhwysol. Defnyddiwyd grym ffilm i gyflwyno materion cyfredol i ofod gwylio llawr gwlad, democrataidd. O symposiwm y bobl i ddigwyddiad ffilm a choginio pontio'r cenhedloedd, roedd trafodaethau, gweithdai neu baneli yn dilyn y dangosiadau hyn gan ein helpu i archwilio ac wynebu grym ffilm i ddadgoloneiddio y gwirioneddau sydd o'n blaenau.

Gwyliau Arswyd Abertoir

Abertoir, gŵyl ffilmiau arswyd flynyddol a gynhelir yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth. Dros 14 mlynedd mae wedi tyfu o ddigwyddiad tri diwrnod i amserlen 6 diwrnod. Yn ogystal â dangos ffilmiau arswyd cyllidebau mawr newydd, mae ffilmiau clasurol ac annibynnol yn rhan mawr a phwysig o arlwy'r ŵyl. Cynhelir cystadleuaeth ffilmiau byr bob blwyddyn sydd yn arddangos ffilmiau byr arswyd a ffantasi ledled y byd. Wrth ddathlu eu penblwydd yn 14, cafwyd cyflwyniad i ddangosiad penblwydd Alien gan ei awdur Ron Shusett, o gyfrifiadur a lansiwyd i'r gofod!

O Fewn Cof

Mae'r Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn agor treftadaeth sgrin Cymru i gynulleidfaoedd pontio'r cenedlaethau. Maen nhw'n defnyddio casgliadau graffeg a chlywedol y Llyfrgell Genedlaethol i ddatgloi atgofion a hwyluso therapi atgofion.

Cymru ar Ffilm

Fe wnaethom lansio 5 pecyn archif ar thema mewn partneriaeth gyda'r Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi'i ddylunio ar gyfer y cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae'r adnoddau yn hyrwyddo addysg yn y dosbarth ac mewn gofod sinema ar draws amrediad o bynciau. Mae'r ffilmiau ar gael ar becyn DVD ar wahân a gellir eu harchebu gan walesonfilm@llgc.org.uk ac maen nhw i'w gweld ar blatfform dysgu HWB Llywodraeth Cymru.

Lleoliadau yn y Fro

Dan arweiniad Canolfan Gelfyddydau'r Memo, y Barri, mae Lleoliadau'r Fro yn brosiect peilot cyffrous sydd yn gweld datblygiad partneriaeth rhwng unarddeg o ganolfannau celf cymysg a sinemau cymunedol ym Mro Morgannwg. Maen nhw'n cael eu cefnogi i adnewyddu strategaethau marchnata a rhaglennu ac yn cydweithio i greu taflenni, hysbysebion a thudalennau cymdeithasol ar y cyd. Gyda strategaethau cryfach, mae gan ddangosiadau misol grwpiau mwy o'r gymuned leol, wledig a chymunedol.

Blwyddyn Ieithoedd Brodorol

I ddathlu Blwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO fe wnaethom guradu rhestr o ffilmiau oedd â'r nod o godi proffil rhyngwladol yr iaith Gymraeg, ynghyd â iaiethoedd rhai o'r cymunedau rhyngwladol mwyaf sydd yn ffurfio ein cynulleidfaoedd yng Nghymru. Cynhaliodd Pontio gyfres yn cynnwys sinema Siapaneaidd a Chymraeg a dangosodd lleoliadau eraill ffilmiau mewn ieithoedd lleiafrifol ledled y byd o'r Eidal i Haida, iaith sydd yn cael ei sarad gan lond llaw o bobl yn unig yn y byd.

Rhwydwaith Gŵyl Ieuenctid Cymru

Menter rhwydwaith gwyliau ffilm Cymreig newydd a ddatblygwyd gan Ganolfan Ffilm Cymru, Wicked Wales a gwyliau allweddol yn y rhanbarth, gyda'r nod o gynyddu rhaglenni ffilm Prydeinig annibynnol a rhyngwladol sydd ar gael i gynulleidfaoedd ifanc, ac sydd wedi'u gwneud ganddyn nhw. Ers ei lansio yn 2019 maen nhw wedi cynnal sesiwn hyfforddi rhyngweithiol oedd yn edrych ar ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc, o farchnata i raglennu, gweithio gyda gwirfoddolwyr a rheoli digwyddiadau . Eu prosiect ddiweddaraf fydd eu Gŵyl Tair Ffilm, dathliad tri diwrnod o ffilmiau a wnaethpwyd gan, neu ar gyfer pobl ifanc.

Ffilmiau a ddangoswyd:

Ffilm

Arian a sicrhawyd ar gyfer prosiectau newydd:

3411

£1,418,250

Ffilmiau Cymreig

Dros **35,000** o fynediadau

235 o ffilmiau Cymreig

14 diwrnod rhagddangosiad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu'r iaith Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant Cymreig yn flynyddol gan gynnig llwyfan i ddoniau a straeon Cymreig. Rydym wedi buddsoddi £54,000 i gefnogi dangos 235 o ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig ers 2013. Rydym wedi helpu i hyrwyddo dros 600 o ffilmiau drwy ein gwefan ac ystafell Rhagddangos ar-lein sydd yn galluogi arddangoswyr i wylio dangoswyr Cymreig. Rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu Gwnaethpwyd yng Nghymru fel brand, wedi'i ategu gan ddata tocynau a derbyniadau cadarn.

Anim18

94 o bartneriaid

150 o leoliadau

1,254,010 o gynulleidfaoedd

2544 o ddigwyddiadau

Fe wnaethom gydlynu dathliad o animeiddio ar draws y DU gan arddangos y gorau o dalent Prydeinig o Ebrill i Dachwedd 2018. O hoff ffilmiau plentyndod i ffilmiau byr arbrofol, cynhaliodd Anim18 ddangosiadau, gweithdai a dgwyddiadau pop-yp gyda'r nod o roi animeiddio Prydeinig – yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol – yn gadarn ar flaen sylw.

Tymhorau Cenedlaethol

2013-14 · 2014-15 · 2015 · 2015-16 · 2016 · 2016 · 2016-17 · 2017 · 2017-18 · 2019-20

Gothic – The Dark Heart of Film

Britain on Film: Urban – Our Lives. Our Stories.

Britain on Film: Rural – Our Lives. Our Stories.

Black Star

Anim18 – A Celebration of British Animation

Major Programmes

Sci-Fi: Days of Fear and Wonder

Love

Roald Dahl on Film

Britain on Film: Coastal – Our Lives. Our Stories.

Musicals!

Comedy Genius

Film Feels

Japan

Mae gwybodaeth am ein holl brosiectau ar gael yn www.filmhubwales.org